

**Bwrdd Academaidd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol  
Dydd Mercher, 17 Gorffennaf 2013  
Ystafell Gynadledda 1, Campws Cyncoed, Prifysgol Fetropolitan Caerdydd**

**Yn bresennol:**

- Aelodau (Coleg): Yr Athro Siwan Davies, Dr Dylan Foster Evans, Dr Carwyn Jones, Dr Elin Haf Gruffydd Jones, Gwilym Dyfri Jones, Huw Morris (ex-officio), Delyth Murphy (tan 3.30), Yr Athro Gwynedd Parry, Dr Eleri Pryse, Gwerfyl Roberts (tan 2.45)
- Aelodau (Sefydliad): Dr Anwen Jones, Dr Lisa Lewis, Dr Gina Morgan (tan 3.00), Dr Angharad Naylor, Dr Siân Wyn Siencyn
- Aelodau (Myfyrwyr): Manon George
- Aelodau (Colegau Cymru): Llinos Roberts, Carys Swain
- Swyddogion: Dr Ioan Matthews (Prif Weithredwr), Dr Dylan Phillips (Uwch Reolwr Academaidd), Dr Dafydd Trystan (Ysgrifennydd y Bwrdd), Nia Brown (Swyddog Datblygu)
- Ymddiheuriadau: Dr Hefin Jones (Cadeirydd a Deon), Phil Ainsworth, Julie Brake, Dr Rhys Jones (ar ran Dr Gwenno Ffrancon), Yr Athro Densil Morgan, Alys Rosser, Dr Gwennan Schiavone, Dr Enlli Thomas, Yr Athro Deri Tomos

<b>Eitem</b>	<b>Prif bwyntiau trafod</b>	<b>Pwyntiau Gweithredu</b>	<b>Cyfnod amser</b>
<b>1. Croeso a Sylwadau Agoriadol</b>	1.1. Croesawyd yr aelodau'n ffurfiol i'r cyfarfod gan yr Is-Gadeirydd, Delyth Murphy, ac estynnwyd cofion y Bwrdd Academaidd at y Deon. Eglurwyd y byddai Gwilym Dyfri Jones yn dirprwyo ar gyfer yr Is-Gadeirydd o 3.30 ymlaen. 1.2. Diolchwyd i Brifysgol Fetropolitan Caerdydd am letya'r cyfarfod ac i'r rhai a gyfrannodd at weithdy arfer da llwyddiannus y bore. 1.3. Croesawyd Huw Morris, Cadeirydd y Pwyllgor Cydweithio Academaidd, a Dr Angharad Naylor, Prifysgol Caerdydd, i'w cyfarfod cyntaf.		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
<b>2. Ymddiheuriadau a Datganiadau o ddiddordeb</b>	2.1. Nodwyd ymddiheuriadau fel uchod a chyfleuwyd ymddiheuriadau'r Cadeirydd a oedd yn absennol ar fyr rybudd am resymau teuluol. 2.2. Nid oedd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb i'w nodi.		
<b>3. Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Mai 2013</b>	3.1. Adroddwyd y byddai cofnodion y cyfarfod diwethaf yn cael eu hadolygu ymhellach, er eglurder. Nodwyd sylw Dr Dylan Foster Evans ar gyfer cofnod 6.3 ynghylch llwybrau dysgu cyfnod sabothol a sylw Dr Elin Haf Gruffydd Jones ar gyfer cofnod 11.3 yn nodi mai aelodau'r Bwrdd Academaidd yn bersonol oedd i enwebu Cymrodyr, ochr yn ochr â'r Cyfarwyddwyr ac unigolion addas eraill. 3.2. Cytunwyd i ddiwygio'r cofnodion.	Swyddog Datblygu i ddiwygio'r cofnod a chylchredeg y cofnodion cyn y cyfarfod nesaf	Medi 2013
<b>4. Aelodaeth</b>	4.1. Nodwyd mai dyma fyddai cyfarfod olaf Manon George fel cynrychiolydd myfyrwyr a diolchwyd iddi am ei chyfraniad gwerthfawr ar hyd y cyfnod a dymunwyd yn dda iddi yn ei swydd newydd ym Mhrifysgol Caerdydd. 4.2. Cafwyd diweddariad gan y Prif Weithredwr ar drafodaethau gyda'r corff myfyrwyr yn cadarnhau y byddai chwech o gynrychiolwyr myfyrwyr ar y Bwrdd Academaidd yn y dyfodol.	Swyddogion i gadarnhau'r aelodaeth	16 Hydref 2013
<b>5. Cynllun Staffio Academaidd (BA/13/04/05)</b>	5.1. Cyflwynwyd crynodeb o'r papur diwygiedig ar bolisi'r Coleg ar gyfer dyrchafiadau a chyfnodau sabothol gan y Cofrestrydd. 5.2. Nodwyd y dylid ychwanegu cymal, yn sgil y newid yn y cofnod uchod, ynghylch darlithwyr nad oedd ar lwybrau ymchwil, a derbyniwyd y papur. 5.3. Holwyd ynghylch polisi cyfnod mamolaeth y Coleg ac esboniwyd fod y Coleg yn dilyn polisiau'r sefydliadau unigol a oedd yn gweithredu fel cyflogwyr. Cytunwyd, fodd bynnag, i ffurfioli'r sefyllfa a chyflwyno i'r Bwrdd	Cofrestrydd i ddiwygio'r papur  Datblygu polisi cyfnod mamolaeth i'w gyflwyno i'r Bwrdd Academaidd	16 Hydref 2013  2013/14

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	<p>Academaidd yn y dyfodol.</p> <p>5.4. Eglurwyd bod cyllideb y cynllun staffio wedi ei chynllunio'n fanwl ar gyfer y blynyddoedd nesaf. Er bod modd arfer elfen o hyblygrwydd ar gyfer costau cyfnodau sabothol a chyfnodau mamolaeth, gallai hynny arwain at leihau nifer y swyddi newydd y bydd modd eu creu yn y dyfodol. Nodwyd y byddai adolygiad o'r materion uchod yn ystod y flwyddyn academaidd nesaf.</p>		
<p><b>6. Cynlluniau pynciol</b></p>	<p>6.1. Cyflwynwyd tabl buddsoddi yn nodi targedau a chyddestun y cynlluniau i'r Bwrdd Academaidd. Nodwyd y byddai cynnwys pob bocs yn llawn erbyn y cyfarfod nesaf ac y byddai 22 cynllun pynciol ar y gweill.</p> <p>6.2. Eglurwyd bod angen cymeradwyo'r cynlluniau oll mewn egwyddor er mwyn sicrhau bod modd eu defnyddio at ddibenion cynllunio a dyfarnu grantiau yn ystod y cyfnod nesaf. Eglurwyd ymhellach y byddai'r cynlluniau'n cael eu diweddarau'n gyson ac yn dod gerbron y Bwrdd Academaidd yn ôl yr angen i'w hadolygu.</p> <p>6.3. Derbyniwyd Cynllun y Gyfraith yn ei ffurf derfynol.</p> <p>6.4. Derbyniwyd a chymeradwywyd y Cynllun Daearyddiaeth, Amaethyddiaeth a Gwyddor Amgylchedd gan nodi diwygiad nifer i 2 ar dudalen 5 y cynllun.</p> <p>6.5. Derbyniwyd a chymeradwywyd y Cynllun Ieithoedd Modern gan bwysleisio'r heriau i'r cynllun a chyfiawnhau'r buddsoddiad yn y pwnc wrth geisio hybu niferoedd cenedlaethol drwy ddysgu o bell.</p> <p>6.6. Eglurwyd bod angen i'r Panel Cymraeg drafod y cynllun ymhellach ac y cyflwynir cynllun gweithredu diwygiedig maes o law.</p> <p>6.7. Trafodwyd y Cynllun Cerddoriaeth yn fanwl gan nodi'r buddsoddiad sylweddol yn sgil niferoedd a heriau'r sefydliadau. Eglurwyd bod prosiect y Cydlynedd</p>	<p>Cyflwyno cynlluniau i'r Bwrdd Academaidd</p> <p>Diwygio'r cynllun</p> <p>Gofyn i'r cydlynedd geisio denu myfyrwyr i barhau i astudio o faes</p>	<p>2013/14</p> <p>Haf 2013</p> <p>Medi 2013</p>

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	<p>Academaidd mewn Cerddoriaeth, yn ei ffurf bresennol, yn dod i ben. Nodwyd y targedau uchelgeisiol gan nodi fod y targed yn uwch na'r nifer presennol o Gymry Cymraeg sy'n astudio'r pwnc.</p> <p>6.8. Derbyniwyd a thrafodwyd y Cynllun Busnes gan nodi bod tri phlegwn yn datblygu ym Mangor, y de-orllewin a'r de-ddwyrain. Nodwyd newidiadau i'r testun ac yn benodol i'r sefyllfa gyfredol ar dudalen 3 a'r troednodyn ar dudalen 5.</p> <p>6.9. Derbyniwyd a chymeradwywyd y Cynllun Polisi Cymdeithasol a Chymdeithaseg sy'n arddangos sail gadarn i symud ymlaen ym Mangor a Chaerdydd.</p> <p>6.10. Derbyniwyd y Cynllun Chwaraeon. Nodwyd bod Prifysgol Bangor wedi ymrwymo i'r cynllun ond bod Prifysgol Aberystwyth wedi pednerfynu peidio cyllido swydd yn y maes hwn a bod statws y sefydliad hwnnw yn y cynllun wedi newid o ganlyniad. Cytunwyd i ohebu â Phrifysgol Fetroplitan Caerdydd ynghylch adolygiad cwriciwlwm yn y sefydliad hwnnw a'r effaith posibl ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Yn amodol ar nifer o ddiwygiadau a nodwyd gan yr aelodau, cymeradwywyd y Cynllun.</p> <p>6.11. Cyflwynwyd y Cynllun Gwleidyddiaeth Ryngwladol a Gwleidyddiaeth am y tro cyntaf gan Dr Dylan Phillips. Eglurwyd bod gan Aberystwyth draddodiad hir o ddysgu'r pwnc a bod ystod o ddarpariaeth ac ymrwymiad i'r dyfodol, nad oes darpariaeth gan Abertawe ar hyn o bryd, a bod darpariaeth yn cael ei datblygu yng Nghaerdydd. Yn dilyn trafodaeth fanwl, yn cynnwys ystyriaeth ofalus o gwestiynau yn ymwneud â chydweithio rhyng-sefydliadol ac amodau'r cynllun staffio, cymeradwywyd y Cynllun.</p> <p>6.12. Cafwyd cyflwyniad byr ar y Cynllun Mathemateg a Ffiseg gan Dr Dylan Phillips gan gyfeirio at gadeiryddiaeth Dr Eleri Pryse a'r cyfarfod adeiladol diweddar. Nodwyd bod academyddion yn cydweithio, y niferoedd myfyrwyr yn</p>	<p>addysg bellach</p> <p>Diwygio'r cynllun</p> <p>Diwygio'r cynllun</p> <p>Gohebu gyda Dirprwy Is-Ganghellor Prifysgol Fetroplitan Caerdydd ynghylch modiwlau Cymraeg</p>	<p>Haf 2013</p> <p>Haf 2013</p> <p>Medi 2013</p>

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	<p>gryf, a bod y ddarpariaeth helaethaf yn Aberystwyth. Cymeradwywyd y cynllun.</p> <p>6.13. Eglurwyd bod yr hen Gynllun Diwydiannau Creadigol a fu, drwy'r Ganolfan Addysg Uwch Cyfrwng Cymraeg gynt, wedi dod i ben a bod cynllun newydd ar y gweill wedi'i hwyluso gan Eifion Lloyd Jones. Yn dilyn trafodaeth gychwynnol fis Mai pan drosglwyddwyd peth gwybodaeth o'r hen gynllun, bydd y panel yn cwrdd yn y flwyddyn academaidd nesaf i'w drafod ymhellach. Nodwyd y cynllun drafft presennol ac adroddwyd y cyflwynir fersiwn diwygiedig yng nghyfarfod yr hydref.</p> <p>6.14. Nodwyd bod y Panel Cynllun Astudiaethau Addysg wedi cyfarfod ac y cyflwynir cynllun llawnach i'r Bwrdd Academaidd yng nghyfarfod yr hydref. Derbyniwyd y cynllun drafft.</p> <p>6.15. Derbyniwyd a chymeradwywyd fersiwn cynnar o Gynllun Hanes, Hanes Cymru ac Archaeoleg a drafodwyd gan banel newydd, sydd wedi cytuno blaenoriaethau, dan gadeiryddiaeth yr Athro Densil Morgan.</p> <p>6.16. Cafwyd adroddiad cynnydd ar y Cynllun Nyrsio a gyflwynir yn llawnach i'r Bwrdd Academaidd nesaf.</p> <p>6.17. Derbyniwyd a chymeradwywyd fersiwn cynnar o Gynllun Troseddeg sydd yn faes newydd cyfrwng Cymraeg. Nodwyd bod angen trafod ac ystyried goblygiadau cynnig 80 credyd trwy un aelod o staff (tudalen 4).</p> <p>6.18. Yn ystod y drafodaeth cododd nifer fawr o gwestiynau am faterion penodol yn deillio o'r cynlluniau a nodwyd pwysigrwydd yr egwyddor nad yw sefydliadau'n dibynnu ar y Coleg yn unig i gyllido addysg a darpariaeth cyfrwng Cymraeg.</p>		
<b>7. Celf a Dylunio</b>	7.1. Trosglwyddwyd yr awenau i Gwilym Dyfri Jones, o'r eitem hon ymlaen.		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	<p>7.2. Adroddwyd bod Prifysgol Fetropolitan Caerdydd wedi holi am statws Celf a Dylunio o fewn y Cynllun Pwnc Diwydiannau Creadigol. Eglurwyd fod Celf a Dylunio yn cael ei ystyried fel maes pwnc ar wahân.</p> <p>7.3. Nodwyd yma fod y Coleg yn cysoni ystadegau cynlluniau yn sgil canllawiau CCAUC, ystadegau HESA a UNISTATS ac felly fod 80 credyd yn fwy cyson erbyn hyn.</p>		
<p><b>8. Pwyllgor Cydweithio Academaidd</b></p>	<p>8.1. Cafwyd adroddiad llafar gan Huw Morris, Cadeirydd y Pwyllgor Cydweithio Academaidd, ar waith y pwyllgor. Nodwyd cefndir arbenigol yr aelodau ar ansawdd a phwysigrwydd eu cyngor ar ddilysu modiwlau ar y cyd rhwng y sefydliadau.</p> <p>8.2. Nodwyd cofnodion 30 Ionawr 2013 a 1 Mai 2013, er gwybodaeth.</p> <p>8.3. Nodwyd bod y pwyllgor wedi mabwysiadu cylch gorchwyl a gyflwynir i'r Bwrdd Academaidd nesaf.</p> <p>8.4. Adroddwyd bod y pwyllgor wedi trafod addysg y myfyriwr, pwysigrwydd adran B10 y QAA, cofrestru, arholi, amserlennu, rheoliadau, diffinio cydweithio a chreu fframwaith cydweithio gan gynnwys creu ffurflenni cais electronig ar gyfer graddau cydweithredol a modiwlau i feithrin trafodaeth hwylus rhwng y sefydliadau, y cofrestrfeydd a'r Coleg. Crybwyllwyd bod pwyslais ar osgoi clustnodi arian tan y byddai sicrwydd ynghylch cynlluniau cydweithredol. Nid rhwystro ond hwyluso'r broses gydweithredu yw nod y pwyllgor. Nodwyd bod cynlluniau mewn Athroniaeth ac Astudiaethau Rhan-amser wedi'u cyflwyno i'r pwyllgor eisoes ac y bydd yn edrych ar geisiadau modiwlau o fis Hydref ymlaen.</p> <p>8.5. Diolchwyd i'r Cadeirydd am ei gyflwyniad a dymunwyd yn dda i waith y pwyllgor.</p>	<p>Cyflwyno cylch gorchwyl y PCA i'r Bwrdd Academaidd nesaf</p>	<p>16 Hydref 2013</p>

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
<b>9. Tystysgrif Sgiliau Iaith</b> (BA/13/04/09)	<p>9.1. Derbyniwyd adroddiad y Prif Arholwr, Dr Elin Meek, a diolchwyd iddi am ei gwaith ac i bawb yn y sefydliadau a fu ynghlwm â'r broses arholi. Adroddwyd y bu 40 ymgeisydd, 6 yn derbyn rhagoriaeth, 28 yn llwyddo a 6 yn methu.</p> <p>9.2. Adroddwyd y byddai cyfle i ail-eistedd yr arholiad a bod argymhellion eisoes wedi'u trafod ar gyfer gwella prosesau'r arholiad y flwyddyn nesaf.</p> <p>9.3. Byddai'r ymgeiswyr llwyddiannus yn derbyn eu tystysgrifau yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Ninbych, yn ystod mis Awst 2013.</p>		
<b>10. Astudiaethau Cyfieithu</b>	<p>10.1. Cafwyd adroddiad llafar gan y Prif Weithredwr yn nodi penodiad Lowri Wynne Williams fel Cydlynnydd Cyfieithu o fis Medi 2013.</p>		
<b>11. Anrhydeddu arloeswyr addysg uwch</b>	<p>11.1. Cafwyd diweddariad yn sgil gwahodd aelodau'r Bwrdd Academaidd yn y cyfarfod diwethaf i gynnig enwau ar gyfer (i) Cymrodyr posibl a (ii) am syniadau ar gyfer anrhydeddau neu wobrau eraill.</p> <p>11.2. Daeth pedwar enw posibl i law gan aelodau'r Bwrdd Academaidd ac estynnir y gwahoddiad tan fis Medi pan fydd Pwyllgor Anrhydeddau'r Coleg yn cwrdd am y tro cyntaf i drafod yr enwebiadau ynghyd ag enwebiadau'r Cyfarwyddwyr.</p> <p>11.3. Gohiriwyd yr ail eitem yn sgil absenoldeb y Cadeirydd a oedd wedi cyflwyno syniadau ar gyfer anrhydeddau neu wobrau eraill.</p> <p>11.4. Nodwyd y bwriad o gyflwyno gwobr Hanes am y traethawd doethuriaeth gorau yn y Gymraeg.</p> <p>11.5. Cyflwynwyd y bwriad, yn amodol ar gytundeb y teulu, o sefydlu gwobr er cof am Eilir Hedd Morgan, darlithydd ar y Cynllun Staffio, a laddwyd mewn damwain yn gynharach</p>	<p>Swyddog Datblygu</p> <p>Gosod yr eitem ar agenda'r Hydref</p>	<p>Haf 2013</p> <p>16 Hydref 2013</p>

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	eleni.		
<b>12. Dyfarniadau Cynllun Staffio ac Ysgoloriaethau Ôlrawddeg</b>	12.1. Cafwyd adroddiad llafar, gan Dr Dylan Phillips, ar ddyfarniadau'r Cynllun Staffio ac Ysgoloriaethau Ôlrawddeg, yn datgan eu bod wedi'u llenwi ac y cyhoeddir yr enwau yn yr Eisteddfod Genedlaethol fis Awst 2013.		
<b>13. Ysgoloriaethau Israwddeg</b>	13.1. Cafwyd adroddiad llafar, gan y Cofrestrydd, ar ddatblygiadau yn y maes Ysgoloriaethau Israwddeg. Nodwyd bod y drafodaeth gyda CCAUC yn parhau a bod arian dyfarnu ysgoloriaethau yn weddill ar gyfer mis Medi.		
<b>14. Materion i'w codi – Myfyrwyr</b>	14.1. Nid oedd materion i'w codi gan y myfyrwyr.		
<b>15. Materion i'w codi – Canghennau</b>	15.1. Nid oedd materion i'w codi gan y canghennau.		
<b>16. Materion yn codi</b>	16.1. Cafwyd diweddariad ar ymwneud y Coleg â'r Gymdeithas Ddysgedig. Nodwyd bod darlith flynyddol, ar y cyd rhwng y Coleg a'r Gymdeithas Ddysgedig, wedi'i threfnu ar gyfer 19 Tachwedd 2013 yn Aberystwyth a bydd yr Athro Brinley Roberts yn darlithio ar y pwnc Edward Llwyd.		
<b>17. UFA</b>	17.1. Nodwyd yr awgrym i osod agenda a phapurau'r cyfarfod ar Sharepoint er hwylustod i'r aelodau. 17.2. Holwyd yngylch y sefyllfa parthed y Gronfa Datblygiadau Strategol ac adroddwyd ar gynlluniau'r Coleg ar gyfer y flwyddyn gan y Prif Weithredwr. Nodwyd fod y cynlluniau yn adlewyrchu y wasgedd araiannol sydd ar gyllideb y Coleg.	Swyddogion y Coleg i drafod gyda TG y Coleg	Medi 2013



Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
<b>18. Dyddiadau'r cyfarfodydd nesaf</b>	18.1. Nodwyd y dyddiadau canlynol ar gyfer y blynyddoedd academaidd 2013/14 a 2014/15: <ul style="list-style-type: none"> <li>• 16 Hydref 2013, Caerfyrddin</li> <li>• 5 Chwefror 2014, Aberystwyth</li> <li>• 7 Mai 2014, Caerdydd</li> <li>• 15 Hydref 2014, Prifysgol De Cymru</li> <li>• 4 Chwefror 2015, Caerfyrddin</li> <li>• 13 Mai 2015, Prifysgol Glyndŵr</li> </ul>		